COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU AR BWNC 2 A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB / O BELL DRWY GYFRWNG TIMAU MICROSOFT DDYDD IAU, 13 MAWRTH 2025 AM 10.00 O'R GLOCH

Presennol

Y Cynghorydd Colin Davies – Y cadeirydd am y cyfarfod hwn

GH Haines

Presennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | M Lewis | A Wathan | R Williams |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

F D Bletsoe, P Ford, D T Harrison, J Llewellyn-Hopkins, RL Penhale-Thomas ac R J Smith

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd / Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Laura Kinsey | Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Plant |
| Jade Jones | Arweinydd Comisiynu a Digonolrwydd Plant |
| Daniel Bolton | Rheolwr Grwp y Gwasanaethau i Ddarparwyr |
| Richard Hughes | Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Awen |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |

## 22. Cymeradwyo'r Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bwnc 2, dyddiedig 17 Ionawr 2025 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 13 Mawrth 2025 |

## 23. Diweddariad y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Flaenraglen Waith (FWP) yn Atodiad A yn amodol ar gynnwys yr argymhellion isod, yn nodi'r Daflen Weithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B ac yn nodi yr adroddid am y Flaenraglen Waith fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor wrth gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol:<br><br>1. **Gofynnodd** y Pwyllgor am i'r adroddiadau canlynol gael eu hychwanegu at eu Blaenraglen Waith:<br><br>a. Cefnogaeth i'r rhai sy'n Gadael Gofal (gan gynnwys mewnbwn gan Gyflogadwyedd a Thai); a<br>b. Gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar, Atal ac Ar Ffiniau Gofal.<br><br>2. **Gofynnodd** y Pwyllgor am i'r Strategaeth Llyfrgell ddrafft gael ei hychwanegu at Flaenraglen Waith y Pwyllgor fel eitem Cyn Penderfyniad yn dilyn yr ymgynghoriad yn yr Hydref. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 13 Mawrth 2025 |

## 24. Y Llyfrgell a Gwasanaethau Diwylliannol

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelod o'r Cabinet a Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad a'r ceisiadau am wybodaeth ychwanegol canlynol:<br><br>**Argymhelliad:**<br><br>1. Mynegodd y Pwyllgor bryder bod llawer o drigolion eisoes yn teimlo bod eu llyfrgelloedd lleol dan fygythiad parhaus o gael eu cau ac y gallai'r dogfennau ymgysylltu â'r cyhoedd, sy'n manylu ar y newidiadau arfaethedig a'r hybiau cymunedol mwy canolog, arwain at ganfyddiad pellach y cyhoedd bod eu llyfrgell leol yn debygol o gau. Felly **argymhellodd** y Pwyllgor:<br><br>a. dewis ychwanegol: sef cadw'r ddarpariaeth bresennol, i gael ei ychwanegu at y cwestiwn, 'Pa bryderon neu awgrymiadau sydd gennych ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig i wasanaethau'r llyfrgell?'; a<br>b. dylai'r neges farchnata allweddol ar gyfer yr ymgynghoriad ganolbwyntio ar y datganiad yn y Cyflwyniad i'r ddogfennaeth ymgysylltu: 'Gobeithiwn y bydd y strategaeth hon yn canolbwyntio ar weledigaeth o ehangu hybiau cymunedol.'<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol:**<br><br>2. **Gofynnodd** y Pwyllgor am gadarnhad o ddyddiadau ac amserlenni'r ymgynghoriad a'r dyddiadau y mae Swyddogion yn bwriadu rhoi cyflwyniadau i grwpiau cymunedol a thrigolion, fel y cynigiwyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol, gan roi cyfle i'r Aelodau fynychu lle bo modd.<br><br>3. **Gofynnodd** y Pwyllgor am ragor o wybodaeth ynghylch y broses ymgeisio am arian o'r Gronfa Hybiau Cymunedol Integredig, gan dynnu sylw at y ffaith y gallai fod yn arbennig o ddefnyddiol yn llyfrgell Abercynffig.<br><br>4. Bu'r Pwyllgor yn trafod Llyfrgell Pontycymer, nad oedd yr Aelodau'n teimlo ei bod yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial, a thrafodwyd y defnydd o'i hen gartref yn Neuadd y Gweithwyr Blaengarw.<br><br>Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai Bwrdd Ymgynghorol Awen yn cyfarfod yn Neuadd y Gweithwyr Blaengarw i drafod sut i wneud y defnydd gorau o'r adeilad ar sail gynaliadwy tymor hwy a **gofynnodd** y Pwyllgor am adborth ar ganlyniadau'r cyfarfod. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 13 Mawrth 2025 |

## 25. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 13 Mawrth 2025 |

## 26. Gwahardd y Cyhoedd

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Nid oedd yr eitem ganlynol i gael ei chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth wedi ei heithrio fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5, Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y mae'n ymwneud â gwybodaeth sy'n gysylltiedig â materion ariannol neu fusnes person penodol (gan gynnwys yr Awdurdod sy'n dal y wybodaeth honno). Yn dilyn cymhwyso prawf budd y cyhoedd, penderfynodd y Pwyllgor ystyried yr eitem hon yn breifat yn unol â'r Ddeddf a chafodd y cyhoedd eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 13 Mawrth 2025 |

## 27. Adroddiad Eithriedig – Strategaeth Gomisiynu Lleoliadau y Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd 2025-2030

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Roedd yr eitem hon wedi ei heithrio |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 13 Mawrth 2025 |

I gael gweld mwy o'r ddadl a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 13:28.